# YR HEUWR

CYLCHGRAWN MISOL EGLWYS HOREB PENRHYN-COCH
CYFROL 2 RHIF 32
MAWRTH 2010

Er 1969 y mae S4C, fel rhan o ddathliadau Gŵyl Ddewi, wedi cynnal y gystadleuaeth “Cân i Gymru”. Y gân fuddugol eleni oedd cyfansoddiad Alun Evans, neu Alun Tanlan, “Bws i’r Lleuad”. Cafwyd dathlu mawr yn y Venue, Llandudno wrth i’r enillydd gael ei gyhoeddi y noson honno ond erbyn canol dydd Llun ar y rhaglen radio “Taro Post” bu yna feirniadaeth lem gan ambell un am safon isel y gystadleuaeth. Rhaid imi gyfaddef imi fwynhau’r rhaglen eleni eto - fel y gwnaf bob amser- er bod y safon yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn. Ambell waith fe fydd yna fwy nag un cân yn deilwng o’r wobr gyntaf ond brydiau eraill anodd iawn yw dewis un sydd wedi llwyddo i gyrraedd y brig.

Ond os ydych yn chwilio am ganeuon da, chewch chi ddim gwell na’r cant a hanner o ganeuon sydd yn Llyfr y Salmau, sef Llyfr Emynau yr Hen Destament. Dyma un o rannau mwyaf poblogaidd y Beibl. Mae sawl un o’r salmau wrth gwrs yn adnabyddus iawn a’u geiriau mor gyfarwydd â geiriau Gweddi’r Arglwydd. Maent yn werthfawr iawn am eu bod yn cyflwyno yr holl ystod o deimladau ac emosiynau a ddaw i’r unigolyn. Er i’r salmau gael eu cyfansoddi flynyddoedd maith yn ôl, yr un yw’r emosiynau sy’n cynhyrfu a pheri cymaint o benbleth inni mewn bywyd. Gŵyr y salmydd yn iawn am brofiadau anodd bywyd megis iselder, unigrwydd, tristwch ac anobaith yn ogystal â phrofiadau llawen a gorfoleddus. Gŵyr hefyd ond yn rhy dda am ddrygioni pobl ac am awydd unigolion i dwyllo ac i ddial. Yn wir ar adegau cawn yr awduron yn uniaethu eu hunain â theimladau felly. A sut bynnag y teimlwn o ran emosiwn fe fydd o leiaf un o’r salmau yn cyfateb yn ddi-ffael â’n teimladau ninnau. Pan fyddwn ni’n methu â dod o hyd i eiriau i gyfleu a disgrifio ein profiadau a’n deisyfiadau y mae’r salmydd yn medru rhoi’r geiriau priodol inni.

Trwy gyfrwng geiriau’r Salmydd fe ddown ninnau hefyd yn ymwybodol o gadernid y Duw byw sydd bob amser yn gyson yn ei bresenoldeb a’i ofal trosom. Un o nodweddion amlwg Duw yn Llyfr y Salmau yw ei fod bob amser o blaid y rhai sydd yn ddifreintiedig, yn dlawd ac o dan ormes ac hefyd yn Un sydd yn barod i fynegi ei hun drwy ymateb yn gadarnhaol i’r rhai sydd yn troi ato am gymorth. Y mae Arglwydd y bydysawd yn bresenoldeb cadarn ac yn Dduw sydd yn ein cynnal ymhob un o’n profiadau. Diolchwn amdano ac am gyfoeth y Salmau sydd yn ein cynorthwyo i ymlwybro tuag at orsedd gras.

Pob bendith
Judith
Berwynfa, Penrhyn-coch, Aberystwyth. SY23 3EW
Rhif Ffôn : 01970 820939 E-bost: berwynfa@btinternet.com

CALENDR MIS MAWRTH 2010

| Cyhoeddwraig Y Mis : Sandra Beechey | Organydd y Mis : Ceris Gruffudd | |
|---|---|---|
| 7 Mawrth 2.30yp | Oedfa Gymun: Gweinidog | Bwrdd y Cymun : I’w drefnu |
| 14 Mawrth 10.30yb | Oedfa Deuluol : Gweinidog | |
| 21 Mawrth 2.30yp | Oedfa Bregeth : Gweinidog | Gofal y Te: Dafydd ac Ellen |

| | | |
|---|---|---|
| | | Sheppard |
| 28 Mawrth 10.30yb | Oedfa Bregeth a Chlwb Sul Bach | |
| 1 Ebrill<br>Nos Iau Cablyd 7yh | Oedfa Unedig Ddwyieithog yn y Morfa. Pregethir gan y Dr Russ Parker, Acorn Healing Trust. | |
| 2 Ebrill<br>Seion 10.00yb | Oedfa Gyd-enwadol Gymraeg<br>Pregethir gan weinidog Bethel.Wedi'r oedfa fe fyddwn yn gorymdeithio drwy'r dref. | |
| 4 Ebrill 2.30yp | Oedfa Gymun. Fe fydd Bethel yn ymuno â ni. | Bwrdd y Cymun: I'w drefnu |

**I'CH DYDDIADUR**

10 Mawrth : Cinio Cymunedol Penrhyn-coch yn Neuadd yr Eglwys
12-13 Mawrth : Cwrs Hyfforddi ar gyfer "Taith Dewi Sant"
13 Mawrth : Cinio Gŵyl Ddewi Cymdeithas y Penrhyn: Gwraig Wadd : Sue Jones-Davies
17 Mawrth : Cymdeithas Bethel : Mrs Karen Roberts o Wasanaeth Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru yn siarad am Ddiogelwch Tân yn y cartref am 2.00yp.Croeso cynnes.
23 Mawrth : Cwrdd Gweddi Misol yn Festri Horeb am 7.30yh
24 Mawrth : Cinio Cymunedol Penrhyn-coch yn Neuadd yr Eglwys
24 Mawrth : Pwyllgor Gweithredol Os Mêts. Festri'r Garn am 7yh
26 Mawrth : Cymdeithas Os Mêts : Drws Society Profiad yn Neuadd Talybont. Pris Mynediad : £3
29 Mawrth : Cyfarfod Diaconiaid Horeb a Bethel ym Methel am 7.00yh.
12 Ebrill : Cinio Cymorth Cristnogol yn Seion. 12.-1.30yp. Croeso cynnes.
17 Ebrill : Cyngerdd ym Methel am 7yh yng nghwmni Côr Ger-y-Lli, Rhys Taylor ac unawdwyr eraill.
11 Gorffennaf : Gwibdaith Bethel a Horeb i Silian
6 Hydref : Cyfarfod Diolchgarwch yn Neuadd Penrhyn-coch yng nghwmni'r Parchedig Tecwyn Ifan.Fe fydd y noson hon yn rhan o ddigwyddiadau cenhadaeth "Taith Dewi Sant".

**LLOFFION**

**Cyfarchion:** Mae sawl un o ffyddloniaid Horeb wedi bod yn anhwylus yn ddiweddar neu wedi gorfod ymweld â'r ysbyty. Anfonwn ein cyfarchion cynhesaf at Mrs Gillian Dobson, Mrs Connie Evans, Mrs Morfydd Morris a Mrs Glenys Thomas. Brysiwch wella!

**Cydymdeimlwn yn ddwys â**

- Sue a Mervyn Hughes ar golli modryb.
- Christine Lloyd, Borth a'i gŵr Stuart ar golli mam Stuart.

**Dymuniadau gorau** i Lynne Hughes a fydd yn gyfrifol am goreograffi Sioe Ieuenctid Eisteddfod yr Urdd eleni.

**Casgliad Haiti** : Casglwyd cyfanswm o £126 at drigolion Haiti yn y casgliad mis diwethaf. Diolch yn fawr am bob cyfraniad.

**Eisteddfod yr Urdd** : Bydd angen gwirfoddolwyr o'r Clybiau/Ysgolion Sul ar ddydd Mawrth ac o bosib ar ddydd Sadwrn yn yr Eisteddfod yn Llanerchaeron. Daw mwy o fanylion yn y man.

**Cyfamodi** : Mae nifer o'n haelodau sydd yn talu treth yn cyfamodi eu rhoddion i Horeb. Mae hyn yn golygu y gall y Trysorydd, ar ran Horeb, hawlio 25c yn ychwanegol am bob punt a gyfrennir. Os ydych yn talu treth a fyddech yn barod i ystyried cyfamodi eich rhoddion i Horeb? Cewch fwy o fanylion gan y Trysorydd.